

Gwybodaeth am Drwyddedu Teledu ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol.

Mae'r wybodaeth yma ar gyfer y rhai sy'n cefnogi tenantiaid. Nid yw wedi'i bwriadu i gael ei defnyddio gan y cyhoedd.

Pwy sydd angen Trwydded Deledu?

Mae ar eich tenantiaid angen Trwydded Deledu i wyllo neu recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel, neu lawrlwytho neu wyllo unrhyw rai o raglenni'r BBC ar BBC iPlayer – yn fyw, wrth ddal i fyny neu ar alw. Gallai hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys teledu, cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn symudol, tabled, consol gemau, bocs digidol neu beiriant recordio DVD/VHS.

Mae Trwydded Deledu lliw yn costio £159.00 y flwyddyn, ac mae trwydded du a gwyn yn costio £53.50 y flwyddyn.

Mae yna amryw o wahanol ffyrdd o dalu ar gael i helpu pobl i rannu cost ffi'r drwydded.

Cyfrifoldebau'r landlord – os bydd landlord yn gosod eiddo ac yn darparu, neu'n bwriadu darparu, offer derbyn teledu er defnydd tenantiaid, cyfrifoldeb y landlord yw sicrhau bod yr eiddo wedi'i drwyddedu.

Cyfrifoldebau'r tenant – os yw'r brydles neu'r cytundeb tenantiaeth yn egluro mai'r tenant sy'n gyfrifol am y Drwydded Deledu, hyd yn oed os yw'r offer derbyn teledu yn perthyn i'r landlord, rhaid i'r tenant sicrhau bod yr eiddo wedi'i drwyddedu. Os byddwn yn darganfod nad yw'r tenant wedi'i drwyddedu'n gywir, fe fydd yn mentro cael ei erlyn a dirwy o hyd at £1,000, ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol a/neu iawndal y gall gael ei orchymyn i'w talu.

Cyfrifoldebau lojar – rhaid i lojar gael ei Drwydded Deledu ei hun os, yn ei stafell wely, y mae'n gwyllo neu'n recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel, neu'n lawrlwytho neu'n gwyllo unrhyw rai o raglenni'r BBC ar BBC iPlayer – yn fyw, wrth ddal i fyny neu ar alw. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddyfais a darparwr y mae'n eu defnyddio. Yr eithriadau yw os yw unigolyn yn aelod o'r teulu, os yw'n byw yn yr un cartref oherwydd ei berthynas (e.e. perthnasau cydnabyddedig), neu fel rhan angenrheidiol o'i gyflogaeth (e.e. au pair, howsgiper). Bydd unrhyw lety ar wahân neu hunangynhwysol fel fflat neu randy yn galw am ei Drwydded Deledu ei hun.

Adnewyddu Trwydded Deledu.

Byddwn yn ysgrifennu at bob deiliad Trwydded Deledu trwy'r post, o leiaf bythefnos cyn i'w trwydded bresennol ddod i ben, i roi gwybod fod angen iddyn nhw adnewyddu. Bydd taliadau Debyd Uniongyrchol yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig bob blwyddyn.

A yw eich tenant, neu rywun y maen nhw'n byw gyda nhw:

- **Yn 75 mlwydd oed neu drosodd, ac yn derbyn Credyd Pensiwn?** Gallant wneud cais am Drwydded Deledu am ddim. Bydd angen iddynt fod yn derbyn Credyd Pensiwn yn eu henw nhw, neu gall hyn fod yn enw eu partner os ydyn nhw'n gwpl ac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Yn 74 mlwydd oed ac yn derbyn Credyd Pensiwn? Gallant wneud cais am Drwydded Deledu am ddim nawr, ynghyd â thrwydded tymor byr i'w trwyddedu hyd at eu pen-blwydd yn 75.

- **Yn ddall (â nam difrifol ar eu golwg)?** Gallent fod yn gymwys i wneud cais am gonsesiwn o 50%. Gallant gwblhau ac argraffu ffurflen gais ar lein yn tvlicensing.co.uk/blind a'i hanfon atom ynghyd â chopi o'u dogfen cofrestru'n ddall neu dystysgrif gan eu hoffthalmolegydd. Fe ddylen nhw gynnwys rhif eu trwydded, rhif ffôn a thaliad trwy siec a'i phostio at TV Licensing, Blind Concession Group, Darlington DL98 1TL.

I gael mwy o wybodaeth am gonsesiynau, ewch i tvlicensing.co.uk/concessions neu ffoniwch **0300 790 6042**.

Consesiynau ar lety gofal preswyl – mae'r rhain ar gael i bobl sy'n byw mewn rhai mathau o lety gofal preswyl, fel cartrefi nyrsio cymwys neu dai gwarchod.

Ffyrdd o dalu.

Mae yna amryw o gynlluniau talu a ffyrdd o rannu cost Trwydded Deledu. Fe all eich tenantiaid gael gwybod mwy trwy ffonio 0300 555 0288.

Sut i brynu trwydded.

- **Mewn unrhyw PayPoint:** fe all y tenantiaid dalu am Drwydded Deledu gydag arian parod neu gerdyn debyd. Gallant ddod o hyd i'w safle agosaf yn paypoint.com/locator
- **Cerdyn talu Trwyddedu Teledu:** fe all y tenantiaid wneud taliadau o £6.00 yr wythnos gyda cherdyn talu Trwyddedu Teledu. Fe ddylen nhw fynd i tvlicensing.co.uk/pay neu ffonio 0300 555 0288.
- **Trwy'r post:** fe all y tenantiaid anfon sic eidd atom am ffi lawn y Drwydded Deledu yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu', gan ysgrifennu eu henw, cyfeiriad a chôd post yn glir ar gefn y sic. Dylai siciau gael eu hanfon at **TV Licensing, Darlington DL98 1TL**. Ni ddylai tenantiaid anfon arian parod.
- **Debyd Uniongyrchol:** bydd y tenantiaid yn gallu dewis rhannu cost y drwydded trwy ddewis o blith amryw o opsiynau Debyd Uniongyrchol, neu gallant dalu'r cyfan gydag un taliad. Mae'n bosib trefnu Debyd Uniongyrchol yn tvlicensing.co.uk/dd neu drwy ffonio 0300 790 6042. Sylwch fod rhai opsiynau ar gael ar gyfer Trwydded Deledu lliw yn unig.
- **Cerdyn debyd/credyd:** fe all y tenantiaid wneud taliad unigol gyda cherdyn debyd neu gredyd, gan gynnwys Maestro, Delta, Visa, Visa Electron neu MasterCard. Mae'n bosib gwneud taliadau yn tvlicensing.co.uk neu drwy ffonio 0300 790 6042.

Symud tŷ.

Os bydd rhywun yn symud tŷ heb ddweud wrthym, fyddan nhw ddim wedi'u trwyddedu'n gywir ac fe allai eu cyfeiriad newydd gael ei gofrestru'n ddirwydded. Yna fe allent fentro cael eu herlyn a dirwy o hyd at £1,000 ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol a/neu iawndal y gallent gael eu gorchymyn i'w talu. Fe all tenantiaid newid eu cyfeiriad yn tvlicensing.co.uk/moving neu drwy ffonio 0300 790 6042.

Taflenni ar ffurfiau eraill.

Mae ein gwybodaeth a'n cyhoeddiadau ar gael mewn nifer o ffurfiau, gan gynnwys 26 iaith, taflenni print bras a Braille. Os yw'r tenantiaid yn fyddar, yn drwm eu clyw neu â nam ar eu lleferydd, rydym yn cefnogi Gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf (NGT). I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar tvlicensing.co.uk/accessibility

Manylion cyswllt defnyddiol Trwyddedu Teledu.

- Ein gwefan – tvlicensing.co.uk/cymraeg
- Gwasanaethau i gwsmeriaid/ymholiadau cyffredinol – 0300 790 6042
- Cerdyn talu Trwyddedu Teledu – 0300 555 0288
- 74 mlwydd oed a throsodd – 0300 790 6042
- Taliadau Debyd Uniongyrchol a chardiau debyd/credyd – 0300 790 6042
- Llety ar gyfer gofal preswyl – 0300 790 6011
- Ar gyfer fformatau Braille, print bras neu sain – 0300 790 6076
- Symud tŷ – 0300 790 6037
- Cyfeiriad – **Customer Services, TV Licensing, Darlington DL98 1TL**

Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio gyda chyrff sy'n darparu cyngor am reoli arian a chefnogaeth i gwsmeriaid. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ein gwaith yn y gymuned, ffoniwch ni ar 020 8752 6537.



Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Ewch i tvlicensing.co.uk/cymraeg